**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Council Chamber, Council Offices, Llangefni ar Dydd Llun, 28 Tachwedd 2016**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 1 Rhagfyr, 2016. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 8 Rhagfyr, 2016. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 9 Rhagfyr, 2016.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R A Dew, K P Hughes, A M Jones, H E Jones, Alwyn Rowlands a Ieuan Williams (Cadeirydd)

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr John Griffith, T.Ll. Hughes, Llinos M. Huws, R. Meirion Jones, Alun Mummery, Peter Rogers.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr J A Roberts

(10.00 o'r glo - 11.25 o'r gloch)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion** |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar ar y dyddiadau canlynol fel rhai cywir:-**<br>• **17 Hydref, 2016**<br>• **7 Tachwedd, 2016 (Cyllideb)** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **D/B** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **D/B** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith ddiweddaredig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod o fis Rhagfyr, 2016 i fis Gorffennaf, 2017.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau ar gyfer blaengynllunio.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Sylfaen y Dreth Gyngor am 2017/18**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cymeradwyo :-**<br>• **Cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn 2017/18, sef 30,735.70;**<br>• **Cyfrifiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni dros y flwyddyn 2017/18;**<br>• **Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (OS199956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan OS1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, bydd y symiau y mae y Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrifo fel Sylfaen y Dreth am 2017/18 yn 30,794.83 ac fel sydd wedi eu rhestru yn yr adroddiad ar gyfer y Trefi/Cymunedau unigol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Galluogi'r Cyngor i bennu ei Dreth Gyngor er mwyn cwrdd â'r gyllideb a gymeradwywyd ganddo am 2017/18.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Sir :-**<br>• **Na ddylai'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol gael ei adolygu na'i ddisodli gyda chynllun arall;**<br>• **Bod y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18 yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol;**<br>• **Ei fod yn rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 wneud trefniadau gweinyddol fel bod pob newid blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu adolygiad technegol mewn unrhyw reoliad/reoliadau sy'n diwygio yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac am bob blwyddyn ddilynol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **D/B - bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor llawn ar 15 Rhagfyr, 2016.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Chwarter 2, 2016/17**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Nodi meysydd yn y Cyngor sy'n tanberfformio.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Monitro Cyllideb Refeniw - Chwarter 2, 2016/17**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD :-**<br>• **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â pherfformiad ariannol hyd yma;**<br>• **Rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 gyfalafu costau tâl cyfartal os bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo cyfarwyddyd cyfalafu ar gyfer tâl cyfartal.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro Cyllideb Refeniw 2016/17.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Monitro Cyllideb Gyfalaf - Chwarter 2, 2016/17**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD monitor cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD monitor cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn y gyllideb gafalaf.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Mabwysiadu pwerau gan y Cyngor a Dirprwyo i Swyddogion**<br>Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Sir :-**<br>• **Y dylid mabwysiadu'r pwerau a restrir yn Atodiad 1, yr adroddiad;**<br>• **Diwygio'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad i ddirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) ddefnyddio'r pwerau hyn;**<br>• **Rhoi'r Awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Dirprwyo, ac unrhyw newidiadau** |

| | |
|---|---|
| | **canlyniadol, i adlewyrchu mabwysiadu a dirprwyo'r pwerau hyn.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Diwygio'r Cynllun Dirprwyo yng Nghyfansoddiad y Cyngor.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **D/B - bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor llawn ar 15 Rhagfyr, 2016.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Eitem Rhanbarthol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Growth Track 360**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD :-**<br>• **Mabwysiadu Growth Track 360 fel Rhaglen Gwella Rheilffyrdd y Cyngor;**<br>• **Ysgrifennu at Ysgrifenyddion Gwladol Llywodraeth y DU dros Swyddfa Cymru a Thrafnidiaeth gan roi cefnogaeth y Cyngor i Growth Track 360;**<br>• **Ysgrifennu at y Canghellor y Trysorlys gyda chopïau at yr Adran Drafnidiaeth a Swyddfa Cymru i ofyn am ddarparu £130m i weithredu Rhaglen Tymor Byr Growth Track 360 yn Natganiad yr Hydref 2016 a Chyllideb 2017;**<br>• **Ysgrifennu at Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru ynghylch pennu'r Patrwm Gwasanaeth ar gyfer Gogledd Cymru a gynigir gan Growth Track 360 ym Masnachfraint newydd Cymru a'r Gororau.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo rhaglen Growth Track 360.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD :-**<br>• **Parhau i drafod ffyrdd o weithio gydag eraill i gynnig gwasanaeth cynaliadwy â ffocws, gan gynnwys model cyfraniad gwirfoddol ar gyfer gweithgareddau gwerth ychwanegol;**<br>• **Ymgynghori ar y Strategaeth Ddrafft ym mis Mai 2017 yn dilyn yr etholiad lleol;**<br>• **Adrodd ar y Strategaeth Ddrafft, yng ngoleuni canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a bod penderfyniad terfynol ar gyfeiriad strategol Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn yn cael ei gytuno gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2017.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Rhoi diweddariad ar y Cynllun i Drawsnewid y Gwasanaethau Llyfrgell.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ar gynnydd hyd yma.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Rhoi diweddariad ar drawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **14 Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2016.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

# EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **16 Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Cynghori ar Fudd-daliadau Lles**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mae'n ymwneud ag arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |